

GUIDE
DOGS



Cymru

Modiwl 2

Sut mae ci tywys yn cael ei hyfforddi?



Cynllun gwers

Dolenni Cwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, ABGI, Datblygiad personol a lles

Nod:

Esbonio'r camau hyfforddi ym mywyd ci tywys.

Amcanion:

Ail edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wybod am rôl ci tywys a deall yr hyfforddiant trylwyr sy'n gynwysedig.

Deilliannau Dysgu:

Bydd y mwyafrif o blant yn gallu disgrifio rhai camau o hyfforddiant ci tywys. Bydd eraill yn gallu datblygu canllaw yn dangos pob cam yn ei ddatblygiad. Bydd rhai yn creu eu blog eu hunain yn canolbwyntio ar brofiadau penodol, safbwyntiau a theimladau.

Nodiadau Athro/Arweinydd:

Mae fideos amrywiol ar gael ar ein Sianel You Tube Channel Guide Dogs UK. Mae'r fideo "The Life of Guide Dogs" yn cael ei ddefnyddio yn y cynllun gwers hwn. Mae ar gael drwy ddilyn dolen ar y dudalen ddysgu.

Adnoddau:

Bydd angen mynediad i'r rhyngwrdd ar gyfer y fideo sydd ar You Tube

Taflen adnoddau a datganiadau i'w torri allan - Camau hyfforddi ci tywys

Taflen adnoddau – Gwneud cais i fod yn gi tywys

Copi o'n Bridiau Cŵn Tywys

Geirfa Allweddol:

Cerddwr ci bach, hyfforddi, nodweddion, gwirfoddolwr

Dysgu Pellach:

Mae Gwneud Synnwyr, ein pecyn STEM yn rhoi cipolwg i bobl ifanc o synhwyrâu pobl a chŵn. Mae'n cynnwys cynlluniau gwersi ar ymwybyddiaeth colli golwg a gweithgareddau chwarae synhwyradd. Mae ar gael i'w lawr lwytho ar

www.guidedogs.org.uk/learning

Cyflwyniad

Esboniwch fod angen hyfforddiant arbennig iawn ar gi tywys er mwyn iddo wneud ei swydd i'r safonau uchel sy'n ofynnol. Mae'n dechrau pan mae'n ifanc iawn. Dangoswch y fideo "The Life of Guide Dogs"

Mae digon o gyfleoedd i oedi yma. Mae'r fideo wedi cael ei rannu'n 5 rhan. Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau cynorthwyol er mwyn annog trafodaeth ar ddiwedd pob rhan.

Bywyd ci tywys

<https://youtu.be/AHXMePThvgw>

- Sut mae Retinitis pigmentosa yn effeithio'r golwg? Noder - gall rholiau papur cegin wedi eu gludio ynghyd roi enghraifft sylfaenol o'r hyn yw golwg twannel.
- Sut mae'r ci tywys yn cynorthwyo ei berchennog?

Ci tywys ifanc

- Beth ddigwyddodd pan roedd y ci tywys rhwng chwech ac wyth wythnos oed?
- Beth yw enw'r gwirfoddolwr sy'n edrych ar ôl y ci bach?
- Pa fath o bethau mae'r ci bach yn cael ei gyflwyno iddynt? Pam fod y rhain mor bwysig?

Hyfforddiant ci tywys

- Pa liw harnais mae'r cŵn yn eu gwisgo yn yr Ysgol Hyfforddi Cŵn?
- Beth mae'r ci yn ei wneud pan fydd yn cyrraedd rhwystr?
- Sut fydd y ci yn cael ei wobrwyo gan fydd yn cael pethau'n iawn?

Paru'r ci a'i berchennog

- Pa wahanol fathau o drafnidiaeth fydd angen i Chad fedru mynd arnynt?
- Ble fydd Chad yn mynd â Dave bob dydd?
- Am ba mor hir fu Chad a Dave yn hyfforddi gyda'i gilydd?

Pan fydd ci tywys yn ymddeol - dewisol

- Beth wnaeth Quince cyn iddo ymddeol?
- Pam wnaeth Quince ymddeol?

Gweithgaredd Dosbarth

Camau Hyfforddi Ci Tywys

Defnyddiwch y cardiau gweithgaredd sydd wedi cael eu torri allan yn barod (o'r daflen adnoddau) a'u cymysgu. Gofynnwch i wyth o blant ddod ymlaen er mwyn darllen cynnwys y cardiau'n uchel. Anogwch y grŵp o wyth i osod eu hunain yn nhrefn llinell amser ci tywys, o'i enedigaeth nes iddo fod yn gi tywys. Gall y grŵp cyfan/y dosbarth helpu.

Wrth i chi fynd drwy bob cerdyn, mae cwestiynau ychwanegol ac atebion yn fersiwn yr athro/yr arweinydd y gallwch eu gofyn i'r grŵp cyfan/dosbarth.

www.guidedogs.org.uk

Syniad am Weithgaredd 1

Beth yw gwirfoddolwr?

Mae'r cerddwyr cŵn yn wirfoddolwyr. Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau. Beth maen nhw'n meddwl yw ystyr bod yn wirfoddolwr; ysgrifennwch ddiffiniad yn eu geiriau hwy.

Ydyn nhw'n gallu meddwl am amseroedd pan fuon nhw'n gwirfoddoli er mwyn gwneud rhywbeth naill ai gartref neu yn yr ysgol gan greu rhestr? Ydyn nhw'n gallu disgrifio'r teimladau sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli? Gwnewch restr. Rhannwch ddiffiniadau a thrafodwch deimladau ar y cyd.

Syniad am Weithgaredd 2

Y broses o hyfforddi ci tywys

Mae'r plant yn paratoi canllaw gan ddefnyddio pwyntiau bwled ar ffurf rhifolion a phenawdau er mwyn dangos datblygiad proses hyfforddi'r ci tywys.

Byddai modd iddynt ddatblygu hyn ar ffurf llyfr consertina. Anogwch hwy i gyfeirio'n ôl at y fideo a gweithgaredd y dosbarth er mwyn eu cynorthwyo.

Syniad am Weithgaredd 3

Gwneud cais i fod yn gi tywys

Gofynnwch i'r plant ddychmygu fod y Gymdeithas Cŵn Tywys ar gyfer y Dall yn edrych am gi bach i'w hyfforddi. Anogwch hwy i feddwl yn ôl i'r fideo a'r gweithgaredd dosbarth er mwyn canfod y nodweddion sydd eu hangen ar gyfer ci tywys.

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod yn gi bach a gofynnwch iddynt gwblhau Ffurflen Adnoddau - gwneud cais i fod yn gi tywys. Mae hon yn ffurflen gais, syml ar gyfer swydd. Dylent yn gyntaf ddewis y math o gi yr hoffent fod (o'n poster Bridiau Cŵn) ac ysgrifennu'r wybodaeth hon yn ogystal â'u henwau. Dylen nhw fynd ymlaen i ddisgrifio'u huncain a pham y dylen nhw gael eu hystyried ar gyfer y swydd bwysig hon. Dylen nhw ysgrifennu am yr hyn y maent eisoes yn dda yn ei wneud e.e. gwrando'n astud ar orchmynion, bod yn amyneddgar, dewr ac ati.

Crynswth

Llinell amser hyfforddi

Rhowch llinell amser ynghyd er mwyn dangos proses hyfforddi ci tywys, gam wrth gam.

Gweithgaredd Cartref

Dyddiadur Cerddwr ci bach

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod yn un o'r cerddwyr cŵn bach gan ysgrifennu dyddiadur am brofiad diweddar y maent hwy a'r ci bach wedi ei gael - gallai hyn fod yn ddiwrnod ar lan y môr neu'n daith ar fws neu drên.

(Esboniwch ei bod bob amser yn haws ac yn fwy perthnasol i ysgrifennu o brofiad personol felly os nad ydynt erioed wedi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dylent ddewis rhywbeth y maent yn gyfarwydd ag ef.)

www.guidedogs.org.uk